# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## (O BELL TRWY TEAMS)

| **Aelodau'n bresennol:** | **Dydd Mawrth, 7 Gorffennaf 2020** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod S.Pursey** |
| **Cynghorydd**: | C.J.Jones, D.Keogh, R.Mizen, R.Davies, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, C.Williams a/ac S.Renkes |
| **Aelodau Lleol:** | Aelod A.J.Taylor (Taibach) |
| **Swyddogion yn bresennol:** | C.Morris, S.Ball, M.Shaw, R.MacGregor, J.Griffiths, S.Blewett, A.Manchipp, N.Headon, C.Plowman a/ac T.Davies |

---

1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:-

Y Cynghorydd R.Davies - Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, Cais rhif P2020/0415, oherwydd ei bod yn llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Ystalyfera. Ystyriodd y Cynghorydd Davies ei datganiad fel un rhagfarnol, felly gadawodd y cyfarfod am yr eitem hon, ac ni chymerodd rhan yn y drafodaeth na'r bleidlais ar ôl hynny.

2. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

**PENDERFYNWYD:** Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle ar y ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor heddiw.

3. **CAIS RHIF. P2020/0415 - YSGOL YSTALYFERA**

(Ar y pwynt hwn yn y cyfarfod, ailddatganodd y Cynghorydd R.Davies ei budd yn yr eitem hon, a gadawodd y cyfarfod am y drafodaeth a'r bleidlais ar ôl hynny.)

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ynghylch y cais hwn (adeiladu adeilad deulawr ag ystafelloedd dosbarth a gwaith cysylltiedig ar dir Ysgol Gyfun Ystalyfera, Glan Yr Afon, Ystalyfera) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2020/0415, yn unol ag argymhellion swyddogion, yn amodol ar yr amodau a fanylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

4. **TAFLEN DDIWYGIO**

Sylwer: Dosbarthwyd taflen ddiwygio mewn perthynas â chais rhif: P2020/0406 cyn y cyfarfod, a rhoddodd y Cadeirydd amser digonol i'r aelodau ei darllen, mewn perthynas ag eitem y cais ar yr agenda a gyhoeddwyd, rhoddodd y Cadeirydd ganiatâd i'w dosbarthu/hystyried yn ystod y cyfarfod heddiw, oherwydd y rhesymau a'r sefyllfa benodol lle nad oedd am ohirio unrhyw geisiadau ac i sicrhau y gall aelodau ystyried yr holl wybodaeth berthnasol ychwanegol cyn gwneud unrhyw benderfyniad yn ystod y cyfarfod.

5. **CAIS RHIF. P2020/0406 - 50 COMMERCIAL ROAD, TAI-BACH**

(Dychwelodd y Cynghorydd R.Davies i'r cyfarfod.)

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio am y cais hwn (cynnig i newid defnydd siop yn rhannol (defnydd dosbarth A1) a fflat llawr cyntaf (defnydd dosbarth C3) i Dŷ Amlfeddiannaeth i bum person (HMO) (defnydd dosbarth C4), ynghyd â newidiadau i ffenestriad y prif adeilad a'r tŷ allan yn 50 Commercial Road, Tai-bach, Port Talbot SA13 1LG) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd aelod y ward lleol hefyd yno i roi ei datganiadau yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2020/0406, yn unol ag argymhellion swyddogion, yn amodol ar yr

amodau a fanylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, fel y diweddarwyd yn y daflen ddiwygio a ddosbarthwyd.

**CADEIRYDD**